# Strategaeth Perswadio

| | | |
|---|---|---|
| **Achos** | Eich prif bwyntiau – rhesymau dros eich safbwynt – ewch yn syth i'r pwynt | Mae Cyngor Lerpwl am foddi Cwm Celyn. Rhaid rhwystro hyn achos... |
| **Ffeithiau** | Defnyddio rhesymeg, data a ffeithiau i gefnogi eich safbwynt – cyfeiriwch at eich ymchwil | Defnyddiwch y Llyfryn Trafod Boddi Cwm Tryweryn. |
| **Emosiwn** | Apeliwch at emosiynau'r darllenydd – gwnewch iddynt gydymdeimlo – dangoswch luniau | Dywedwch pa mor unigryw mae'r gymdeithas Gymreig – siaradwch am y teuluoedd a'r plant. |
| **Ethos** | Rhowch yr argraff eich bod yn ddidwyll – byddwch yn berswadiol – defnyddiwch eirfa briodol | Peidiwch â bod yn fygythiol. |
| **Ymateb** | Adeiladwch ymdeimlad o frys – gwnewch i'r darllenwyr deimlo'n bryderus – pwyswch arnyn nhw! | Siaradwch am linell amser digwyddiadau – pam mae rhaid gweithredu NAWR? |
| **Ymchwil** | Defnyddiwch astudiaeth gan eraill i gefnogi eich dadleuon – graffiau a thablau, etc. | Defnyddiwch y we, llyfrau gwybodaeth a chlipiau papur newydd i gefnogi eich dadleuon. Defnyddiwch ymadroddion fel 'Yn ôl tystiolaeth yn y papurau newydd ...', 'Mewn ymchwil gan ...' |

## Defnyddiwch iaith berswadiol

**Ticiwch y rhain wrth i chi eu defnyddio**.

Y cwestiwn yw ... Mae'n amlwg bod ... Heb os nac oni bai ...

Does dim amheuaeth ... Mae'n hollol amlwg ...

Os ... yna ... Pan ... yna ... Os byddwn yn parhau ... yna ...

... mae'n angenrheidiol achos ... mae'n hanfodol bwysig ystyried ...

Mae sawl rheswm pam ...

Dychmygwch ... Ceisiwch eich rhoi eich hunan yn y sefyllfa ...

Dydy'r ddadl o blaid ddim yn dal dŵr achos ...

Credir bod ...

Ni allwn ddibynnu ar ... Rhaid gwrthod ...

Cred llawer ... Mae lle i gredu ...

Felly ystyriwch o ddifri ...